OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 808 (Cy. 128)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyfnewidfa Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent a Chylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Gorffennaf 2023* |
| *Yn dod i rym* | *23 Gorffennaf 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd yn sgil cludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyfnewidfa Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent a Chylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Gorffennaf 2023.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y cyfnod cludo a chau" ("*transportation and closure period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 23 Gorffennaf 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Gorffennaf 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

**1.** Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Gorllewin Glynebwy hyd at ei thrwyniad â'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gylchfan Glanbaiden.

**2.** Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Rasa.

**3.** Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yng Ngarnlydan.

**4.** Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 ym Mhontygof.

**5.** Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Saleyard.

**6.** Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yng Ngilwern.

**7.** Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cilfan cefnffordd yr A465 rhwng Cylchfan Llan-ffwyst a Chylchfan Glanbaiden.